

Cyfarfod Grŵp Iechyd a Diogelwch

30 Mehefin 2022

Yn bresennol: Kelland Dickens, Rheolwr AD
Geraint Harries, Rheolwr Cefn Gwlad
Daisy Hughes, Rheolwr Gwasanaethau Ymwelwyr – De
Tegryn Jones, Prif Weithredwr
Andrew Muskett, Rheolwr Prosiectau Adeiladu
Liz Rooney, Cynrychiolydd Unsain
Libby Taylor, Rheolwr y Gwasanaeth Parcmyn
Sharron Thomas, Cynorthwy-ydd Gweinyddol – Rheoli Datblygu

1. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth Dyfan Evans, Goruchwylydd Coetir. Roedd Geraint Harries yn bresennol yn ei absenoldeb.

2. Cofnodion a Materion yn Codi

Bydd agendâu a chofnodion y dyfodol i gyd yn cael eu cadw yn y ffolder gyhoeddus Adnoddau Dynol / Iechyd a Diogelwch ar y gyriant F a rennir.

Gofynnwyd am adborth pellach gan y Grŵp ynghylch y Cynllun Blynyddol Iechyd a Diogelwch sydd ar y gweill.

Rhannodd Kelland Dickens y penawdau pwnc fyddai'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad i'w gynhyrchu ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Gwasanaethau Corfforaethol.

Dywedwyd bod y Pwyllgor Archwilio a Gwasanaethau Corfforaethol wedi gofyn am Gylch Gorchwyl wedi'i ddiweddarau ar gyfer y Grŵp Iechyd a Diogelwch, ac y byddai'r cylch gorchwyl hwn yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Blynyddol. **Byddai Kelland Dickens yn drafftio Cylch Gorchwyl newydd, gan anfon copi at y Grŵp i gael sylwadau arno cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor.**

Cytunodd Kelland Dickens i ddosbarthu copi o benawdau pwnc yr adroddiad i'r Grŵp am sylwadau.

Dywedodd Andrew Muskett y dylid ychwanegu diweddariad Radon at y Cynllun - yn enwedig ar gyfer Castell Henllys.

Cytunodd Kelland Dickens i gynnwys diweddariad Radon yn y Cynllun Blynyddol.

Gofynnodd Libby Taylor am ddiweddariad ar Ddiogelwch Ymwelwyr. Dywedodd Kelland Dickens bod Dr Rachel Heath-Davies hefyd wedi gofyn am hyn.

Cytunodd Kelland Dickens i gynnwys Diogelwch Ymwelwyr yn y Cynllun Blynyddol.

Cadarnhaodd Kelland Dickens y byddai'n dechrau drafftio'r Cynllun Blynyddol ac y byddai'n anfon e-bost at bob aelod perthnasol o'r staff i sicrhau bod y cynllun yn

crisialu adolygiad trylwyr o'r camau a gymerwyd yn y 12 mis blaenorol yn erbyn agenda lechyd a Diogelwch yr Awdurdod.

3. HAVS – Syndrom Dirgryniad Llaw-Braich

Gan nad oedd Steve Davies yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod, rhoddodd Kelland Dickens ddiweddariad ar HAVS.

Roedd yr Awdurdod wedi prynu offer a meddalwedd newydd i fesur amlygiad dirgryniad peiriannau ar y llaw a'r fraich.

Roedd Steve Davies wedi dechrau cyflwyno'r offer, ac roedd profion wedi'u cwblhau yn y De a'r Gogledd ar asesu maint dirgryniad y peiriannau a ddefnyddir. Hefyd cytunwyd ar ddyddiad i ddechrau asesu offer yn y Gorllewin.

Dywedodd Geraint Harries bod y gwaith yn gynhwysfawr ac y byddai'n rhoi patrwm da o ran maint a phwyntiau'r dirgrynu ar ôl cwblhau'r gwaith.

Dywedodd Tegryn Jones bod HAVS wedi ymddangos ar adroddiad y Pwyllgor Adnoddau Dynol y diwrnod blaenorol, a bod ffocws yr Aelodau ar y maes hwn, a rhagwelwyd y byddai disgwyl cael diweddariadau yn y dyfodol.

Dywedodd Kelland Dickens bod rhai amodau HAVS yn rhai y dylid rhoi adroddiad amdanynt i RIDDOR, a bod yr Awdurdod dan ddyletswydd i gyflwyno adroddiad ar achosion, a'i fod wedi dechrau gwneud hynny yn ddiweddar.

Cadarnhaodd Kelland Dickens bod Technolegau HAVi wedi rhoi dyddiadau hyfforddiant ar y feddalwedd, fyddai'n cael ei ddefnyddio i fesur lefelau dirgryniad ar gyfer staff unigol.

Cadarnhaodd Kelland Dickens y byddai'n dosbarthu dyddiadau hyfforddiant i Libby Taylor, Phil Lees, Geraint Harries a Steve Davies.

Dywedodd Libby Taylor bod angen i'r profi peiriannau gwmpasu'r sampl lawn o beiriannau ar draws yr Awdurdod, ac y dylai hyn gynnwys y rhai sy'n eiddo i'r tîm Parcmyn.

Cadarnhaodd Kelland Dickens y byddai'n sicrhau bod y gwaith yn cael ei gydlynu a bod yr holl beiriannau a nodir ar y Gofrestr Asedau yn cael eu cynnwys.

Dywedodd Kelland Dickens, gan fod y Parcmyn yn destun adolygiadau HAVS lechyd Galwedigaethol, y byddent yn cael eu cynnwys yn yr ymarfer monitro ar gyfer staff sy'n defnyddio peiriannau dirgrynu.

Dywedodd Kelland Dickens y byddai'n sicrhau bod Steve Davies yn briffio Libby Taylor fel y gallai brofi'r peiriannau sy'n eiddo i'r tîm Parcmyn.

Dywedodd Geraint Harries bod peiriannau yng Nghastell Henllys y byddai hefyd angen eu profi.

Cadarnhaodd Kelland Dickens y byddai sgôr gyfartalog yn cael ei defnyddio ar gyfer peiriannau hyd nes y byddai'r holl beiriannau yn cael eu profi'n unigol, a bod hyn yn

arfer derbyniol, y mae Technoleg HAVi yn ei arddel ac a gefnogir gan gyngor a gafwyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE).

Cadarnhaodd Geraint Harries bod y sgoriau a welodd ar gyfer y peiriannau newydd torri prysgwydd yn gywir iawn yn erbyn y sgoriau cyfartalog a nodir yn nogfennau'r gwneuthurwr. Dywedodd bod hyn yn galonogol, ond bod y sgoriau ar gyfer peiriannau hŷn yn dangos gwahaniaeth sylweddol. Dywedodd Geraint bod oedran y peiriannau yn rhywbeth yr oedd angen i'r Awdurdod fod yn ymwybodol iawn ohono, a hyd yn hyn bod yr Awdurdod wedi bod yn disodli peiriannau hŷn i liniaru effaith dirgryniad.

Gofynnodd Kelland Dickens a allai Liz Rooney roi rhestr iddo o'r holl beiriannau trydanol, yn dilyn pwynt a godwyd yn y Pwyllgor Adnoddau Dynol, oedd yn awyddus i ddeall sefyllfa'r Awdurdod ar ddefnyddio peiriannau trydan â batri.

Gofynnodd Kelland Dickens i'r Grŵp am adborth pellach ar y polisi HAVs a dywedodd y byddai'n dosbarthu'r polisi hwn unwaith eto gan nad oedd wedi derbyn unrhyw adborth oddi wrth y Grŵp.

Cadarnhaodd bod y Polisi wedi'i ddosbarthu i'r Pwyllgor Archwilio a Gwasanaethau Corfforaethol ac i'r Pwyllgor Adnoddau Dynol, ac unwaith y byddai'r Grŵp wedi gwneud sylwadau ar y polisi, byddai'n cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo mewn cyfarfod o'r APC.

Gofynnodd Andrew Muskett i sicrhau bod y Rhestr o'r Asedau Peiriannau yn cynnwys y peiriant torri lawnt a pheiriannau eraill a ddefnyddir gan dîm Gofalwr Llanion.

4. Damweiniau a Digwyddiadau

Awgrymodd Libby Taylor y byddai'n ddefnyddiol dadansoddi'r ystadegau a gwahanu damweiniau sy'n ymwneud â staff a/neu aelodau'r cyhoedd, er mwyn rhoi darlun manylach o'r sefyllfa.

Cytunodd Kelland Dickens i wahanu'r ffigurau mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Gofynnodd Tegryn Jones am ragor o eglurder ar yr ystadegau digwyddiadau, oedd yn cynnwys Covid-19; gan nodi bod ystadegau Covid-19 eisoes wedi'u cynnwys yn yr ystadegau Absenoldeb.

Ymatebodd Kelland Dickens y byddai gwahanu Damweiniau a Digwyddiadau sy'n cynnwys aelodau o'r cyhoedd yn ateb y cwestiwn, gan fod y Digwyddiad yn ymwneud ag aelod o'r cyhoedd oedd wedi llewygu yng Nghaerlŷ, lle awgrymodd Criw'r Ambiwylans y gallai fod wedi'i achosi gan Covid-19.

Dywedodd Kelland Dickens bod yr Awdurdod ar ei hôl hi o ran hyfforddiant oherwydd Covid-19, er bod hyfforddiant gloywi bellach yn digwydd. Dywedwyd y cynhelir archwiliad yr wythnos ganlynol i wirio a oedd unrhyw fylchau pellach a dyddiadau hyfforddi eisoes wedi'u clustnodi, os oedd unrhyw fylchau.

Cadarnhaodd Kelland Dickens bod rôl yr Ymgynghorydd AD a glustnodwyd fel anghenraid yn dilyn ymgynghoriad ar yr ailstrwythuro, wedi'i chymeradwyo. Byddai'r

rôl hon yn rhoi ffocws ar lechyd a Diogelwch a Hyfforddiant, ac roedd recriwtio eisoes wedi dechrau.

Dywedodd Daisy Hughes bod ganddi nifer o staff newydd oedd heb dderbyn unrhyw hyfforddiant ar godi a chario, a bod ganddi staff sydd wedi gwasanaethu am gyfnod hwy oedd wedi derbyn hyfforddiant ond fyddai'n croesawu cael hyfforddiant gloywi.

Cadarnhaodd Geraint Harries bod rhai o'r tocynnau wedi rhedeg allan yn ystod Covid-19 oherwydd bod sawl un o'r darparwyr hyfforddiant wedi rhoi'r gorau i hyfforddi. Dywedodd mai da o beth yw bod nifer o sesiynau hyfforddi bellach wedi'u hysbysebu a'u bod yn cael eu trefnu gan Adnoddau Dynol.

Dywedodd Geraint hefyd bod (y gweithiwr) oedd wedi cael damwain yn y gweithle yn ddiweddar yn gwella'n dda iawn.

Dywedodd Tegryn Jones bod hyfforddiant yn holl-bwysig i ddiogelu iechyd a diogelwch staff yr Awdurdod. Dywedodd os bydd staff yn amharod i gymryd rhan mewn hyfforddiant, bod angen i'r Awdurdod amlygu'r manteision i'w hiechyd a'u diogelwch.

5. Ystadegau Absenoldeb

Dywedodd Kelland Dickens bod yr ystadegau absenoldeb wedi cynyddu dros y cyfnod oherwydd Covid-19 a bod y 'diwrnodau a gymerwyd' wedi cyrraedd 419 ers mis Ionawr. Dywedodd nad oedd unrhyw dueddiadau eraill.

6. Diogelwch Tân

Cadarnhawyd bod y Polisi Diogelwch Tân mewn lle yn Llanion, a bod angen diweddariad ar y safleoedd eraill.

Dywedodd Andrew Muskett mai dim ond Caeriw ac Oriel y Parc oedd yn dal heb eu diweddar, ac y byddai Andrew Muskett yn bwrw ymlaen â hyn drwy gydweithio â Rachel Perkins.

Dywedodd Kelland Dickens nad oedd prawf gwacáu'r adeilad wedi'i gynnal yn Llanion ers rhai misoedd gan nad oedd staff yn bresennol yn y swyddfa. Dywedodd y byddai Hyfforddiant Gwacáu Adeilad oherwydd Tân yn cychwyn fis Gorffennaf ac yn cael ei gynnal yn fwy rheolaidd oherwydd bod nifer y staff yn Llanion yn isel a'r angen i ddiogelu pob aelod o staff.

Cytunodd Kelland Dickens i drefnu cyfres o Hyfforddiant Gwacáu Adeilad oherwydd Tân yn Llanion yn seiliedig ar y niferoedd oedd yn bresennol yn yr adeilad ar unrhyw ddiwrnod penodol i geisio cynnwys pob aelod o staff.

Dywedodd Andrew Muskett bod y Swyddogion Tân wedi cael eu hyfforddi ond barnai nad oedd unrhyw eglurder o hyd ynghylch rôl y Swyddog.

Dywedodd Kelland Dickens bod y polisi newydd yn nodi'r rolau a bod yr Hyfforddiant Gwacáu Adeilad oherwydd Tân hefyd yn ymwneud â chyfarwyddo'r Swyddogion Tân ynghylch beth yn union yw eu cyfrifoldebau, drwy ddefnyddio achos 'byw' o wacáu adeilad.

Dywedodd KD y byddai yn gyntaf yn gofyn i bob Swyddog Tân presennol fynychu'r digwyddiadau Gwacáu adeilad, ac yn ail, oherwydd nifer o geisiadau am weithio oriau hyblyg, bod gofyn cael rhestr estynedig o Swyddogion Tân.

Cadarnhawyd bod Driliau Gwacáu Adeilad oherwydd Tân yn cael eu cynnal yn y Canolfannau ac yng Nghilrhedyn, gan fod staff wedi bod yn bresennol ar y safle yn ystod Covid-19.

Gofynnodd Geraint Harries am ragor o hyfforddiant Swyddog Tân i staff Cilrhedyn a

Gofynnodd Daisy Hughes am hyfforddiant Swyddog Tân ar gyfer Caerliw.

Cadarnhaodd Kelland Dickens bod hyfforddiant ychwanegol yn cael ei drefnu, ac y byddai'n gofyn i bob safle a oedd ganddynt aelodau eraill o staff sydd angen hyfforddiant.

7. Cymorth Cyntaf

Cadarnhawyd bod Barbara Bevan wedi cynnal archwiliad o flychau a chyflenwadau Cymorth Cyntaf yn Llanion a bod y rhain bellach wedi'u diweddarau. Dywedwyd bod y Rheolwyr Cefn Gwlad, y Rheolwr Gwasanaethau Parcmyn, a'r Rheolwyr Canolfan i gyd wedi cynnal archwiliadau tebyg, gan ddisodli hen stoc ac ailgyflenwi.

Dywedwyd mai dim ond Diffibriliwr Cilrhedyn a Llanion oedd heb eto eu cofrestru'n llawn ac y byddai hynny'n cael ei gwblhau fis Gorffennaf.

8. Hyfforddiant

Cadarnhaodd Kelland Dickens bod yr hyfforddiant canlynol bellach wedi'i gwblhau:

- Llif gadwyn (cwrs llawn a chwrs gloywi)
- Tocio polyn pŵer
- Llif Glirio
- Peiriant torri gwair i gerddwr ac i yrrwr
- Olwynion Sgraffinio
- CAT a Genny
- Rheoli'n Ddiogel ISOSH
- Arolygon Coed (Sylfaenol a Chanolradd)
- Systemau Llinell Atal

Dywedodd Geraint bod angen dod o hyd i Hyfforddiant Cerbydau Oddi ar y Ffordd wrth i staff newydd ymuno â'r Awdurdod.

Dywedodd Kelland Dickens bod e-bost wedi'i anfon at reolwyr yn gofyn am restr o hyfforddiant gorfodol i staff, a dywedodd nad oedd rhai reolwyr yn darparu'r wybodaeth ac nad oeddent yn gwybod pa hyfforddiant oedd yn ofynnol. Dywedwyd y dylid llenwi Asesiadau Risg a bod hynny'n cael ei wneud, felly dylai reolwyr ddeall pa hyfforddiant oedd yn ofynnol.

Awgrymodd Kelland Dickens y gallai fod angen hyfforddiant pellach ar rai reolwyr ar gynnal Asesiadau Risg Unigol.

Cadarnhaodd Kelland Dickens y byddai'n cynnwys Hyfforddiant Oddi ar y Ffordd (gan gynnwys cyrsiau Gloywi) i'r Matrics Hyfforddiant ac yn trefnu dyddiadau hyfforddiant yn y dyfodol.

Cytunodd Kelland Dickens i anfon e-bost arall at Reolwyr ac y byddai'n eistedd i lawr gyda rheolwyr pe bai angen i'w helpu i ddeall gofynion hyfforddiant gorfodol eu hadrannau.

Dywedodd Geraint Harries bod angen i Asesiadau Risg glustnodi gofynion hyfforddiant statudol a hyfforddiant gorfodol APCAP.

Gan gyfeirio at yr heriau recriwtio yn ddiweddar, roedd Tegryn Jones am gael sicrwydd nad oedd rheolwyr yn cymryd unrhyw lwybr byr o ran iechyd a diogelwch.

Ymatebodd Geraint Harries bod hyfforddiant yn cael ei gynnal ac nad oedd unrhyw weithgareddau'n digwydd oni bai bod hyfforddiant wedi'i gyflwyno. Dywedodd Daisy Hughes bod cynnwys hyfforddiant yn ystod misoedd prysur yr haf wedi bod yn heriol, ond bod hyfforddiant gorfodol yn cael ei gynnal.

Gofynnodd Daisy Hughes am eglurhad ar y polisi o ran hyfforddiant Cymorth Cyntaf i'r staff, a dywedodd bod angen iddi adolygu sut mae'r polisi yn gweithio yn ymarferol i Caeriw gan fod y staff yn gweithio patrymau shift.

Gofynnodd Kelland Dickens i Daisy Hughes adolygu ei threfn rota a rhoi gwybod i Adnoddau Dynol os oedd unrhyw aelod o staff angen Hyfforddiant pellach ar Gymorth Cyntaf.

Gofynnodd Libby Taylor am gyfarfod i gytuno ar hyd y cyfnodau cyn cael Hyfforddiant Gloywi. Ymatebodd Kelland Dickens y byddai hyn yn cael ei gynnwys yn y Matrics Hyfforddiant ac y byddai'n trefnu cyfarfod i sicrhau bod barn rheolwyr yn cael ei lleisio.

Dywedodd Kelland Dickens y byddai'n nodi'r gofynion hyfforddiant ar system newydd AD Cezanne fel y gallai dynnu sylw'r rheolwyr pan fyddai gweithiwr yn agos at y dyddiad y daw ei hyfforddiant i ben, fel bod yr Awdurdod bob amser ar y blaen.

9. Sylwadau gan staff ac Unrhyw Fater Arall

Dywedodd Tegryn Jones bod y Grŵp wedi'i sefydlu i fod yn grŵp sy'n cynrychioli pob adran ar draws yr Awdurdod.

Dywedodd nad oedd yn 'grŵp arbenigol' a bod llawer o waith wedi'i wneud ychydig flynyddoedd ynghynt i fynd i'r afael â Bylchau Iechyd a Diogelwch gan gyfeirio at newidiadau a wnaed o fewn yr adran Rheoli Datblygu a gwerth cynrychiolydd Grŵp Iechyd a Diogelwch yr adran i'r newidiadau hynny.

Dywedodd Geraint Jones unwaith y byddai'r Cynllun Iechyd a Diogelwch Blynnyddol wedi'i gyhoeddi, y byddai'n debygol o ennyn mwy o adborth gan y staff.

Dywedodd Liz Rooney bod pethau wedi eu gohirio o fewn yr Undeb oherwydd Covid-19, felly nid oedd ganddi unrhyw adborth o safbwynt undeb.

Gofynnodd Daisy Hughes a fyddai copi o'r cofnodion yn cael ei ddosbarthu. **Byddai Kelland Dickens yn anfon copi o'r cofnodion at aelodau'r Grŵp i'w gwirio, cyn i'r cofnodion gael eu cyhoeddi ar y gyriant a rennir.**